# Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy

# 2023 - 2029



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio ac ymweld
Conwy County, the right environment to live, work and visit

**Cynnwys**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Twristiaeth - Curiad calon Conwy | 3 |
| 2 | Beth yw ein gweledigaeth? | 4 |
| 3 | Cyflwyno Conwy | 5 |
| 4 | Beth sy’n gwneud Sir Conwy yn gyrchfan mor ddeniadol? | 10 |
| 5 | Pam mae angen Cynllun Rheoli Cyrchfan arnom ni? | 12 |
| 6 | Felly, beth yw rheoli cyrchfan? | 12 |
| 7 | A beth sydd angen i ni ei reoli? | 13 |
| 8 | Pwy fydd yn mynd ati? | 15 |
| 9 | Cyllid | 16 |
| 10 | Cwmpasu dull strategol | 17 |
| 11 | Beth ydym ni’n dymuno ei gyflawni? | 19 |
| 12 | Manylion cyswllt | 22 |

## 1 Twristiaeth - Curiad calon Conwy

Mae Conwy yn Sir sy'n croesawu twristiaeth. Mae'n rhan o'i DNA, o ymwelwyr o'r Oes Efydd, i'r Fictoriaid a ddatblygodd Llandudno yn gyrchfan glan môr. Mae Twristiaeth yn sbardun economaidd allweddol i'r sir, a hefyd i'r rhanbarth ehangach. Mae ein golygfeydd godidog, ein treftadaeth ddiwylliannol, ein hamrywiaeth anhygoel o atyniadau, a phobl fusnes dalentog a chroesawgar yn golygu bod Sir Conwy bellach yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol yn un o brif gyrchfannau'r DU ar gyfer ymwelwyr. Mae twristiaeth yn werth £729 miliwn i'r sir, sydd wedi'i gynhyrchu gan 7.8 miliwn o ymwelwyr. (Steam 2021) Er bod hyn yn dangos pwysigrwydd y sector twristiaeth i'r economi leol yn Sir Conwy, mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar y data oherwydd yr oedd cyfyngiadau'r cyfnod clo yn dal i fod ar waith am ran helaeth o 2021. Gwerth economaidd twristiaeth i'r sir yn 2019 cyn y pandemig oedd £996.18 miliwn (-28.7% o'i gymharu â 2021). Mae hyn yn pwysleisio gwir botensial twristiaeth i'r sir ac mae'n amlygu'n union pam ei fod yn sector â blaenoriaeth i'r ardal.

Mae ein treftadaeth ni o ran y Gymraeg a'n treftadaeth ddiwylliannol ni'n golygu bod gan Gonwy gyfoeth o hanes, mythau a chwedlau lleol, sy'n cynnig ymdeimlad pwerus o le, a chan fod gan y sir nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg, mae'n rhoi profiad i ymwelwyr o dreftadaeth Cymru a'n hiaith.

Mae gennym ni gymuned gefnogol a chroesawgar sy'n cydnabod gwerth twristiaeth, ac sydd am gael eu cynnwys yng nghynlluniau'r dyfodol a chyfrannu atynt.

Bydd y cynllun hwn yn cefnogi ein cymuned a'n busnesau twristiaeth ledled Conwy, yn ogystal â bod o fudd i'n hymwelwyr a'n trigolion ni hefyd. Bydd yn caniatáu i ni i gyd gymryd rhan yn y gwaith o sicrhau bod gan Gonwy sector twristiaeth cynaliadwy a bywiog, sy'n parhau i ennill cydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol am ein hymdeimlad ni o le ac am bopeth yr ydym ni'n ei gynnig i'n hymwelwyr.

*Mae Sefydliad Twristiaeth y Byd (UNWTO) yn diffinio twristiaeth gynaliadwy fel a ganlyn:*

*"Twristiaeth sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'w heffaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol nawr ac yn y dyfodol, gan roi sylw i anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a chymunedau sy'n lletya."*

Rydym ni'n falch o gymeradwyo a chefnogi'r Cynllun hwn.



Nigel Treacy

Cadeirydd

Cyrchfan Conwy



Clive Wolfendale

Cadeirydd

Is-Grŵp Strategaeth/Cynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy

Y Cyng. Nigel Smith

Aelod Cabinet Economi Gynaliadwy



## 2 Beth yw ein gweledigaeth?

Rydym ni'n dymuno i ddiwydiant twristiaeth Conwy roi Conwy ar lwyfan cenedlaethol a rhyngwladol, sy'n llwyddiannus, deinamig ac sy'n cydweithio er budd cymunedau a busnesau lleol er mwyn sicrhau canlyniadau cynaliadwy er budd pawb drwy:-

- Gynyddu gwerth twristiaeth dros y flwyddyn gyfan
- Sicrhau cynaliadwyedd profiad ymwelwyr a phreswylwyr
- Sicrhau bod ymwelwyr a phreswylwyr yn cael profiadau o ansawdd
- Ymgysylltu ymwelwyr â'n treftadaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac adeiledig
- Sicrhau canlyniadau buddiol i'r gymuned leol ac ymwelwyr drwy ymgysylltu'n well â nhw
- Rhoi cefnogaeth i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â sgiliau a'r gweithlu
- Sicrhau bod y sector yn cydweithio i wella'r hyn sydd gennym ni a denu buddsoddiadau newydd
- Dylanwadu ar Fframwaith Cynllunio'r Sir i ddiwallu anghenion y diwydiant a bod yn ddigon hyblyg i weithio gyda thueddiadau twristiaeth presennol a newydd
- Cynyddu'r defnydd o deithio gwyrddach ac isadeiledd cludiant
- Sicrhau bod data'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch twristiaeth
- Sicrhau bod y cyrchfan yn bodloni disgwyliadau preswylwyr ac ymwelwyr o ran glanweithdra, cyfleusterau ac amwynderau.

Cafodd yr amcanion hyn eu nodi ar ôl proses ymgynghori a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid ac eraill sydd â diddordeb, yn cynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn ogystal â sefydliadau cynrychioliadol. Mae Partneriaeth Cyrchfan Conwy wedyn wedi datblygu'r Cynllun Rheoli hwn er mwyn gweithio tuag at yr amcanion hyn. Trwy ganolbwyntio ar yr amcanion hyn, a thrwy adnabod blaenoriaethau dan bob amcan, gall Partneriaeth Cyrchfan Conwy wedyn ddatblygu Cynllun Gweithredu o eitemau penodol y gellir eu mesur a fydd yn sicrhau canlyniadau o fewn cyfnod y cytunwyd arno.

## 3 Cyflwyno Conwy

Mae Conwy yn sir amrywiol, sy’n ymestyn dros ardal o 1,130 cilometr sgwâr, yng nghanol Gogledd Cymru. Mae gan y sir amrywiaeth o ardaloedd daearyddol, o’r arfordir i ganol Parc Cenedlaethol Eryri, sy’n cynnig amrywiaeth o olygfeydd a chyfleoedd hamdden.

**Ffigur 1**





Mae'n cysylltu Dwyrain, Gorllewin a Chanolbarth Cymru ac amcangyfrifir bod ganddi boblogaeth breswyl o tua 116,850 o bobl. Mae lleoliad Conwy hefyd yn caniatáu mynediad rhwydd i Lerpwl a Manceinion sef dwy ddinas ryngwladol sy’n cynnwys meysydd awyr. Mae canolbwynt mordeithiau a llongau fferi rhyngwladol sy’n cysylltu Iwerddon (Dulyn yn arbennig) a’r byd yng Nghaergybi sy’n llai na 40 munud o Gonwy. Yn

ogystal â hyn, mae'r ffaith bod Conwy yn ymestyn ar draws yr A55 (Dwyrain i'r Gorllewin) a'r A470 (Gogledd i'r De) yn gwneud cysylltiadau ffyrdd i Iwerddon a Lloegr yn rhwydd.

Mae cysylltiadau rheilffordd da ar gael hefyd ac mae Cyffordd Llandudno yn orsaf allweddol sy'n cysylltu Llundain â'r sir mewn 3 awr. Yn ogystal â bod mewn lleoliad delfrydol ar gyfer crwydro Gogledd Cymru, mae Sir Conwy hefyd mewn lleoliad da i archwilio gogledd-orllewin Lloegr a'r Gororau yn ogystal ag Iwerddon.

Mae lleoliad Conwy yn golygu bod ganddi ddalgylch i ymwelwyr, sydd o fewn taith car 3 awr, yn cynnwys bron pob un o brif gytrefi Gogledd Lloegr a rhan enfawr o boblogaeth y DU. Mae hyn, ynghyd â daearyddiaeth a chynnig twristiaeth Conwy sy'n datblygu'n barhaus, yn golygu bod y sir yn ganolbwynt i dwristiaid, a ddenodd 7.8 miliwn o ymwelwyr yn 2021 (data STEAM), a'i gwneud yn un o'r prif gyrchfannau yn y DU.

**Ffigur 2**





Nid yw'n syndod felly bod twristiaeth yn sector â blaenoriaeth yng Nghonwy – amcangyfrifir bod gwerth twristiaeth i'r economi leol yn werth £739.53 miliwn, sy'n cefnogi dros 8,783 o swyddi yn y sir (data STEAM 2021).

Nid yw'n syndod chwaith bod y sir yn denu amrywiaeth eang o wahanol fathau o ymwelwyr, ac ymwelwyr am y dydd yw mwyafrif y bobl sy'n ymweld. Ymwelwyr am y dydd yw pobl sy'n ymweld â'r ardal o'r tu allan am ran o'r diwrnod neu'r diwrnod cyfan, ac nad ydynt yn defnyddio llety dros nos yn lleol.

Yn fwy arwyddocaol na hynny yw nifer yr ymwelwyr sy'n aros yn y sir, sef 1.61 miliwn o ymwelwyr (data STEAM 2021) sydd wedi cynyddu 76.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bydd ymwelwyr sy'n aros dros nos yn treulio cyfnod yn y sir ac yn defnyddio llety dros nos yn y sir. Cafodd codi cyfyngiadau'r cyfnod clo yn sgil pandemig byd-eang Covid-19 yn 2020 effaith ar y cynnydd canrannol uchel hwn yn 2021. Mae'n galonogol gweld pa mor gyflym y dechreuodd y galw am ymweliadau dros nos unwaith eto yn y sir pan gafodd cyfyngiadau'r cyfnod clo eu llacio.


**Ffigur 3**




Mae ymwelwyr sy'n aros dros nos yn arbennig o werthfawr i'r economi leol, gan eu bod nhw’n gwario arian mewn bwytai, tafarndai a manwerthwyr lleol yn ogystal â gyda darparwyr llety - ac mae hyn yn ei dro yn cynhyrchu gwariant gan y busnesau hyn yn yr economi leol.

Mewn gwirionedd, er bod nifer yr ymwelwyr sy'n aros dros nos bron yn un rhan o bump o nifer yr ymwelwyr am y dydd, mae eu heffaith economaidd nhw bron ddwywaith cymaint ag ymwelwyr am y dydd.

**Ffigur 4**




Mae llawer o ymwelwyr sy'n aros dros nos yn aros ar hyd yr arfordir. Mae Llandudno yn gweithredu fel canolbwynt llety â gwasanaeth rhanbarthol yng Ngogledd Cymru ac yn wir mae'n cyfrannu'n helaeth at gyfanswm stoc llety â gwasanaeth Cymru gyfan. Mae Llandudno yn gallu cynnig dros 15,000 o welyau bob nos, ac mae amrywiaeth o leoedd i aros yno sy'n addas ar gyfer pob ymwelydd. Tua dwyrain y sir, mae llety heb wasanaethau (cartrefi symudol sefydlog yn bennaf) yn cynnig tua 50,000 o welyau y noson.

Ar hyd a lled y sir gyfan, mae amrywiaeth gref a chynyddol ddeinamig sy'n newid yn gyflym o ran dewisiadau llety, o wersylla a thai bynciau, i glampio, eiddo hunanarlwyo, meysydd carafanau, gwely a brecwast a thai llety, i ddewis o westai bach, bwtîg, mawr a moethus.

Mae Sir Conwy mewn lleoliad delfrydol i aros ynddo er mwyn archwilio Gogledd Cymru. Dyma lle mae Eryri yn cwrdd â'r môr ac mae ar garreg drws cyrchfannau eraill y gallwch chi eu harchwilio yn y rhanbarth. Mae gan ein siroedd cyfagos gyfoeth o atyniadau sy'n rhoi cyfleoedd i ymwelwyr ymestyn eu taith a darganfod mwy o drefi a phentrefi yng Ngogledd Cymru.

Mae atyniadau Gogledd Cymru sy'n datblygu, yn enwedig Conwy, wedi golygu bod nifer cynyddol o ymwelwyr rhyngwladol yn treulio amser yn y sir.

Mae ymwelwyr rhyngwladol wedi cynyddu bron i 50% rhwng 2011 a 2016 i 80,000 o ymwelwyr y flwyddyn (data IPS 2016). Mae rhai cyrchfannau allweddol yn y sir yn arbennig o ddeniadol i ymwelwyr o gyrchfannau penodol, ac mae hyn yn cyflwyno agwedd gadarnhaol arall ar gyfer cyfleoedd twristiaeth yn y dyfodol.




Mae nifer o drefi yn ein sir wedi'u gefeillio â chyrchfannau rhyngwladol er mwyn parhau i ddenu mwy o ymwelwyr rhyngwladol a hybu'r economi. Cafodd dau Safle Treftadaeth y Byd UNESCO eu gefeillio yn 2016 pan gafodd Castell Conwy a Chastell Himeji yn Japan eu gefeillio. Nod y gefeillio oedd hybu twristiaeth gynaliadwy yn y ddau safle; defnyddio prosiectau addysgol i ddatblygu gwybodaeth am y cestyll, eu hanes a'r cymunedau o'u cwmpas; ac i gyfnewid sgiliau ac arbenigedd trwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon ar y cyd.

Arwyddwyd Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Llandudno a Champéry, a'r ardal gyfagos, Dents du Midi, ar Ebrill 1 2022. Ym 1989 gefeilliwyd Llandudno yn ffurfiol â Wormhout, tref yng ngogledd Ffrainc, felly bydd y cytundeb diweddaraf yr awr yn gefeillio Llandudno ag ail gyrchfan er mwyn elwa ar gyd-dwristiaeth.



***Pennawd y llun –*** *Cynrychiolwyr o'r diwydiant twristiaeth a oedd yn bresennol wrth efeillio Llandudno a Champéry.*

Mae enghreifftiau eraill o efeillio yn cynnwys Bae Colwyn a Roissy-en-Brie yn Ffrainc, Parc Cenedlaethol Eryri â pharc Cenedlaethol Triglav yn Slofenia a Thowyn a Bae Cinmel â Guidel yn Ffrainc.

## 4 Beth sy’n gwneud Sir Conwy yn gyrchfan mor ddeniadol?

Fel y nodwyd eisoes, mae Sir Conwy mewn lle perffaith ar gyfer crwydro Gogledd Cymru, a thu hwnt iddi hefyd. Yn yr un modd, mae’r amgylchedd naturiol sy’n cynnwys y môr, y mynyddoedd a’r dyffrynnoedd yn golygu bod amrywiaeth enfawr o brofiadau twristaidd ar gael i’w cynnig i ymwelwyr.

Yn benodol, mae amrywiaeth gwych o weithgareddau antur sydd wedi gwneud Gogledd Cymru yn brifddinas antur y DU. Mae'r rhain yn cynnwys syrffio, gwifrau sip, ogofa, archwilio mwyngloddiau, beicio mynydd, hwylio, barcudfyrddio, canŵio, dringo creigiau a cherdded.

Ond mae gan Gonwy fwy byth i’w gynnig…

- Mae gan Sir Conwy 45 milltir o arfordir, ac mae 17.5% ohono wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth. Mae hwn yn cynnig traethau sy’n addas i deuluoedd – yn cynnwys hwylio a chwaraeon dŵr, sawl harbwr prysur a’r pier hiraf yng Nghymru.

- Mae Llwybr Arfordir Cymru yn rhan hanfodol o’r sir, ac mae dau lwybr newydd Ffordd Cymru (Ffordd Gogledd Cymru a Ffordd Cambria) yn croesi'r sir, sy'n golygu bod llawer o lwybrau beicio, beicio modur, llwybrau teithio a llwybrau cerdded.

- Mae dau farina wedi’u gwasanaethu’n llawn yn y sir, yn ogystal ag amrywiaeth eang o gyfleusterau chwaraeon dŵr mewndirol ac ar y môr.

- Mae'r amgylchedd a bywyd gwyllt yn nodweddion cryf yn y sir, yn cynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Parc Gwledig y Gogarth, gwarchodfa RSPB Conwy a Gardd Bodnant. Mae 38% o'r sir yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri.

- Mae ein treftadaeth o ran y Gymraeg a’n treftadaeth ddiwylliannol ni’n golygu bod gan Sir Conwy gyfoeth o fythau a chwedlau lleol, sy’n cynnig ymdeimlad pwerus o le, a chan fod gan y sir nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg, mae'n rhoi profiad i ymwelwyr o dreftadaeth Cymru a’n hiaith.

- Mae ein treftadaeth adeiledig yn cynnwys Castell Conwy a Muriau’r Dref sy’n Safle Treftadaeth y Byd, yn ogystal â Chastell Dolwyddelan a nifer o gestyll a henebion hanesyddol eraill, meini hirion a Mwynglawdd Copr y Gogarth.

- Mae Sir Conwy yn ganolfan ddiwylliannol, sydd â theatr ranbarthol a chanolfan gynadledda fawr yn Venue Cymru, yn ogystal ag amgueddfeydd, orielau, crefftwyr a gwyliau celfyddydol cyffrous. Yn 2019 cafodd Canolfan Ddiwylliant newydd ei hadeiladu yn nhref Conwy.

- Mae gan y sir ddewis rhagorol o siopau annibynnol ac arbenigol sy’n rhoi dewis gwirioneddol i ymwelwyr. Mae canolbwynt manwerthu mawr yn Llandudno hefyd.

- Mae Sir Conwy yn un o’r cyrchfannau rhyngwladol gorau ar gyfer pobl sydd wrth eu bodd ag antur. Ymhlith yr atyniadau mae Surf Snowdonia, Zip World Fforest, Go Below, Llandudno Snowsports Centre, GYG Karting a Tir Prince, ynghyd â chyfleoedd beicio ffordd a beicio mynydd helaeth.

- Mae gan y sir gyfoeth o gynhyrchwyr bwyd a diod sydd wedi ennill gwobrau - o wneuthurwyr siocled i gigyddion, gwinllannoedd i wneuthurwyr iogwrt - yn ogystal â rhai o’r cynhyrchion fferm gorau.

- Mae’r cynnyrch lleol hwn yn helpu i gefnogi ein cyfleusterau lletygarwch sydd ar gael ledled y sir, sydd wedi datblygu ac wedi ennill enw da am fwyd a gwasanaeth o safon, gan ddenu a datblygu rhai o’r cogyddion gorau.

- Mae Conwy yn sir sydd ag enw da am chwaraeon, ac mae’n cynnig cyfleoedd i gymryd rhan neu wylio’n unig. Mae cyrsiau golff rhagorol yn y sir, sy'n cynnal pencampwriaethau rhyngwladol (yn cynnwys Cwpan Curtis 2020). Mae Parc Eirias yn gartref i dîm Rygbi Uwch Gynghrair Cymru yn ogystal â thîm dan 20 Cymru, ac mae’n gartref i rygbi rhyngwladol dan 20. Mae'r ddaearyddiaeth leol hefyd yn gwneud y sir yn ddeniadol ar gyfer ralïo ceir, gan gynnwys Rali Cymru GB a Rali Cambrian.

- Mae Conwy hefyd wedi datblygu enw da fel cyrchfan digwyddiadau mawr. O flwyddyn i flwyddyn mae’r sir yn cynnal amrywiaeth cynyddol o ddigwyddiadau rhyngwladol, yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon, treftadaeth, diwylliant a cherddoriaeth – sy’n amrywio o Proms yn y Parc i Snwcer y Byd a Physgota Môr i Eisteddfod Genedlaethol 2019.

- Mae'r sir hefyd yn gartref i nifer o atyniadau awyr agored o safon gan gynnwys y Sŵ Fynydd Gymreig, Gardd Bodnant fyd-enwog, Gwarchodfa Natur RSPB Conwy a nifer o barciau fferm fel Parc Fferm Manorafon.

- Mae Conwy yn elwa o syniadau a datblygiadau newydd sydd yn yr arfaeth sy'n creu cyfleoedd twristiaeth newydd, fel y Fenter Awyr Dywyll ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

- Mae Sir Conwy wedi ennill nifer fawr o anrhydeddau a gwobrau am ei hatyniadau a llety yn y blynyddoedd diwethaf - gan sefydliadau mor amrywiol â Lonely Planet, TripAdvisor a Chymdeithas Asiantaethau Teithio Japan - gan ddangos ymwybyddiaeth a diddordeb cynyddol yn y diwydiant teithio a lefelau uchel o foddhad ymwelwyr.

Mae’r amrywiaeth eang o atyniadau, sy’n parhau i ddatblygu, hefyd wedi golygu bod ymwelwyr a oedd yn arfer cael eu denu at gyrchfannau glan môr y sir, bellach wedi dechrau gwasgaru’n fwy eang ar draws y sir. Ac wrth i hyn barhau i ddatblygu, mae'n bwysig bod pob sector sy'n ymwneud â'r economi dwristiaeth yn cydweithio'n rhagweithiol i reoli a chynyddu'r cyfleoedd y mae twristiaeth yn eu cynnig i'r sir.

Mae Rhaglen Llysgennad Twristiaeth Conwy yn adnodd allweddol i gynorthwyo busnesau â hyn. Nod y cynllun yw gwella profiad yr ymwelydd drwy wella’r wybodaeth sydd gan fusnesau a thrigolion am yr hyn y gellir ei gynnig i dwristiaid yn Sir Conwy. Mae’r cwrs yn cynnig 3 lefel cyflawniad sef gwobr efydd, arian ac aur, yn dibynnu ar faint o fodiwlau y mae unigolyn yn eu cwblhau. Ym mis Mawrth 2023, yr oedd dros 500 o lysgenhadon lefel efydd, dros 400 o lysgenhadon lefel arian a dros 300 o lysgenhadon lefel aur. Byddwn ni’n parhau i hyrwyddo a datblygu’r cwrs hwn er mwyn gwella profiad ymwelwyr yn y sir yn barhaus.

## 5 Pam mae angen Cynllun Rheoli Cyrchfan arnom ni?

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan (CRhC) yn ddatganiad o fwriad ar y cyd i reoli cyrchfan dros gyfnod penodol, gan ddisgrifio swyddogaethau gwahanol fudd-ddeiliaid a nodi'r camau gweithredu clir y byddan nhw'n eu cymryd. Trwy gael Cynllun, a luniwyd trwy broses ymgynghori a mewnbwn gan lawer o fudd-ddeiliaid, mae pawb yn ymwybodol o'r cyfeiriad yr ydym ni am symud ymlaen iddo a'r blaenoriaethau a fydd yn pennu polisïau a chamau gweithredu yn y cyfnod sydd i ddod. Mae hyn yn golygu y dylai amcanion a gwaith gwahanol bartneriaid gyd-fynd â'i gilydd, boed yn y sector cyhoeddus, preifat neu drydydd sector - gan weithio tuag at nod cyffredin sef sicrhau Conwy sy'n well i bawb.

## 6 Felly, beth yw rheoli cyrchfan?

Mae Rheoli Cyrchfan yn broses o gydlynu holl agweddau cyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad ymwelydd, gan ystyried anghenion yr ymwelwyr, preswylwyr lleol, busnesau a'r amgylchedd.

Yn ogystal â rhoi'r profiadau gorau posibl i ymwelwyr yn ystod eu hamser gyda ni, mae rheoli cyrchfan o fudd i breswylwyr a'r economi leol hefyd wrth i fwy o bobl aros dros nos sy'n cynyddu gwariant - ac mae hyn yn ei dro (pan gânt eu cefnogi trwy'r cynllun ac mewn mannau eraill) yn symud o amgylch yr economi leol, ac yn creu mwy o swyddi, busnes a gweithgarwch economaidd.

## 7 A beth sydd angen i ni ei reoli?

Mae gan Sir Conwy y fantais enfawr o gael asedau naturiol sylweddol ar garreg ei drws, ac ochr yn ochr â hynny mae lleoliadau twristiaeth poblogaidd a chyrchfan glan môr mwyaf Cymru. Dyletswydd y Cynllun Rheoli Cyrchfan yw amddiffyn a gwella'r asedau hyn i gyd er mwyn sicrhau'r profiad gorau i ymwelwyr ac i drigolion, a'r budd economaidd mwyaf i'r economi leol, yn ogystal â lliniaru a mynd i'r afael ag effaith twristiaeth pan fo perygl y gall gael effaith negyddol ar gymunedau. Un o amcanion craidd y Cynllun hwn yw bod pob adran y Cyngor, yn ogystal â'r busnesau mwyaf eang, yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i'r economi leol - a bod cefnogaeth twristiaeth a phrofiad ymwelwyr yn cael ei gynnwys ym mhob agwedd o waith yn lleol.

Mae angen i ni gydnabod hefyd bod angen i Gynllun Rheoli Cyrchfan effeithiol ymestyn y tu hwnt i ddiffiniadau twristiaeth sydd weithiau'n gul. Yn enwedig yn rhywle fel Sir Conwy, mae'r elfennau sy'n cefnogi ac yn ffurfio'r hyn sy'n cael ei gynnig i ymwelwyr yn eang ac amrywiol, o'r amgylchedd naturiol a threftadaeth ddiwylliannol trwy gyfleusterau yn y gymuned i feysydd isadeiledd ehangach fel cludiant a thai.

Cydnabyddir bod angen i Fframwaith Cynllunio'r Sir weithredu fel rheolydd ar agweddau sy'n cael eu hystyried yn niweidiol, ond dylai hefyd fod yn fecanwaith cefnogi ar gyfer agweddau sy'n welliannau neu'n arloesiadau. Mae Cyrchfan Conwy wedi ymrwymo i gynnig ei brofiad Rheoli Cyrchfan fel bod anghenion y gyrchfan yn cael eu deall ac yn cael eu hymgorffori yn y system gynllunio, ac o ganlyniad i hyn yn cael eu rheoli fel y bo'n briodol i gefnogi'r sectorau twristiaeth a lletygarwch ledled y sir. Yn benodol, mae angen i'r Fframwaith fod yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau yn y sector twristiaeth, fel y gall Sir Conwy reoli bygythiadau a chroesawu cyfleoedd yn well.

Y byrdwn strategol eang dros y cyfnod sydd i ddod yw gwneud Conwy yn brif ardal gyrchfan yng Nghymru, ac yn un sy'n cael ei chydnabod ar lwyfan y byd o ran cyrchfannau twristiaeth. Cyflawnir hyn trwy barhau i wella'r ystod lawn o isadeiledd a chyfleusterau ledled y sir, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu a gwella hygyrchedd a chyfleusterau mewn lleoliadau ymwelwyr allweddol ac ar hyd dau lwybr "Ffordd Cymru" (yn cwmpasu'r A55 a'r A470 yn fras). Er y bydd mynd i'r afael ag adfywio yn parhau i fod yn flaenoriaeth, mae'r Cynllun hefyd yn nodi y dylid cynnal cyrchfannau cryf presennol a naill ai eu hadnewyddu neu eu gwella i sicrhau eu bod nhw'n dal i ddenu ymwelwyr.

Mae'n werth nodi bod ymwelwyr yn pwysleisio bod sawl cyrchfan yn y sir yn lân, taclus ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Nod y Cynllun yw parhau i wella materion cynaliadwyedd a thwristiaeth gyfrifol, gan sicrhau ar yr un pryd bod disgwyliadau trigolion ac ymwelwyr yn cael eu bodloni drwy sicrhau isadeiledd a chyfleusterau o ansawdd da. Gwneir hyn drwy gynlluniau achredu cydnabyddedig, cyfleoedd ariannu, partneriaid neu drwy ymgysylltu â'r gymuned a busnesau ynghylch materion cynaliadwyedd penodol. Yn ogystal â hyn, cydnabyddir bod angen lliniaru a rheoli effeithiau nifer fawr o dwristiaid mewn mannau poblogaidd iawn, mannau cyfyng neu ddigwyddiadau o bryd i'w gilydd. Ochr yn ochr â hyn, anogir pobl i archwilio'r ardal gan ddefnyddio amrywiaeth o ddewisiadau cludiant ar wahân i gerbydau preifat. Nod hirdymor yw datblygu system gludiant cyhoeddus integredig well ar hyd a lled yr ardal.

Yn ogystal â hyn, mae'r Cynllun yn cydnabod bod angen ymgysylltu strategol a chydweithio â phartneriaid eraill ar faterion allweddol ehangach er mwyn sicrhau bod disgwyliadau ymwelwyr yn cael sylw, yn enwedig sgiliau a'r gweithlu ac uwchraddio a chynnal a chadw ansawdd y llety sy'n cael eu cynnig yn yr ardal.

Bydd yr holl waith hwn yn cefnogi'r gwaith o ymestyn y farchnad dwristiaeth (o ran ymwelwyr a natur dymhorol) i weithredu drwy gydol y flwyddyn, a thrwy hynny gynyddu gwerth ledled y sir i fusnesau, unigolion a'r sector cyhoeddus. Yn ei dro, bydd hyn yn annog mwy o gydweithio rhwng partneriaid ac yn gwella profiadau i ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd. Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi cyfle i roi strategaethau lleol ar waith ar gyfer gwahanol rannau o'r sir (er enghraifft, arfordir y dwyrain ac arfordir y gorllewin), gan fod gwell data yn galluogi ymchwil a gwybodaeth am y darlun twristiaeth yn y lleoedd hyn. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ymgysylltiad a chefnogaeth gan bob partner i sicrhau bod data priodol yn cael ei ddarparu er budd pawb.

Daeth yr angen am fodel cynaliadwy o dwristiaeth sy'n cefnogi amgylchedd, iaith a chymunedau Conwy i'r amlwg yn gryf fel blaenoriaeth trwy ymgynghoriad Creu Conwy, a gynhaliwyd yn 2021.

Yn 2022 cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy astudiaeth 'Y Gymraeg a'r Cynnig i Ymwelwyr'.

O'r 69 o fusnesau a ymatebodd i'r arolwg:

- Dywedodd *81% bod y Gymraeg yn cyfoethogi profiad cwsmeriaid*
- Dywedodd *79% bod y Gymraeg o werth i fusnesau*

O'r 193 o ymwelwyr a gymerodd ran yn yr arolwg:

- Dywedodd 79% bod y Gymraeg yn cyfoethogi profiad diwylliannol

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad o 3% yn y defnydd o'r Gymraeg yng Nghonwy. Mae angen gwrthdroi'r duedd hon os ydym ni am gyfrannu at uchelgais Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd y prosiect hwn yn cefnogi themâu Cymraeg 2050, sef:

1) Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg – creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd: gartref, yn y gweithle neu yn ein cymunedau – yn ddaearyddol neu dros y we.
2) Creu amodau ffafriol - isadeiledd a chyd-destun.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Cynllun wedi pennu nifer o amcanion y mae'n rhaid eu cyflawni dros gyfnod y Cynllun. Er mwyn cyflawni pob amcan, nodwyd nifer o flaenoriaethau allweddol. Bydd y blaenoriaethau hyn yn caniatáu i gamau gweithredu unigol gael eu llunio, a bydd canlyniadau mesuradwy a phenodol i'w cyflawni dros gyfnod penodol o amser. Rhestrir yr amcanion a'r blaenoriaethau yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

## 8 Pwy fydd yn mynd ati?

Yn y pen draw, mae sicrhau profiad gwych i ymwelwyr yn gyfrifoldeb ar bob unigolyn sy'n byw ac yn gweithio yn Sir Conwy gan fod pob unigolyn yn dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ardal leol. Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn dod dan “Gyrchfan Conwy”, sy'n sefydliad partneriaeth sydd â’r nod o gefnogi a hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal leol. Mae Cyrchfan Conwy yn goruchwylio’r gweithgareddau a’r gweithredoedd i helpu tîm rheoli cyrchfan Conwy gyflawni ei uchelgeisiau a’i weledigaeth. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r economi leol, yn enwedig y sector twristiaeth. Mae'n ystyried ardaloedd daearyddol y sir a'r gwahanol fusnesau a chyrff cynrychioliadol yn y diwydiant twristiaeth yn ei ystyr ehangaf.

Ar hyn o bryd mae'r Bartneriaeth yn gweithredu nifer o is-grwpiau - fel Marchnata, Sgiliau, Gwybodaeth i Dwristiaid a'r Rhaglen Llysgennad, Rheoli Cyrchfan a Strategaeth / Cynllun Gweithredu. Rhagwelir y bydd yr is-grwpiau hyn, neu eraill yn ôl yr angen, yn goruchwylio’r camau gweithredu arfaethedig gan eu bod nhw’n fach, yn hyblyg ac yn canolbwyntio ar gyflawni. Mae'r is-grwpiau yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bartneriaeth ehangach.

Bydd yr Is-grŵp Strategaeth a Chynllun Gweithredu yn llunio ac yn goruchwylio Cynllun Gweithredu sy'n deillio o'r amcanion a'r blaenoriaethau, ac yn cyflawni canlyniadau penodol wedi'u targedu gan ddechrau o fewn chwe mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Rheoli hwn. Bwriedir i'r Cynllun Gweithredu hwn fod yn ddeinamig ac yn rhagweithiol, a bydd yn esblygu'n barhaus ac yn ymateb i amgylchiadau neu gyfleoedd penodol a all godi. O ganlyniad i hyn, nid yw'r Cynllun Gweithredu yn ymddangos yn y ddogfen hon, ond bydd yn ymddangos fel darn o waith parhaus a fydd yn newid ac yn datblygu dros amser.

Yn ogystal â'r is-grwpiau, bydd hefyd yn hanfodol bwysig sicrhau bod safbwyntiau’r gymuned leol yn cael eu cynrychioli yn y cynllun hwn a Phartneriaeth Cyrchfan Conwy yn gyffredinol. Bydd aelodau Partneriaeth Cyrchfan Conwy yn cynrychioli’r gymuned leol ac yn cael eu hannog i rannu syniadau a gweithio gyda busnesau a thrigolion eraill ar draws y sir.

Mae’r model partneriaeth agos hwn, rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, wedi bod yn gynyddol ragweithiol a llwyddiannus o ran gallu dylanwadu ar bolisi ac ystyried y gofynion a’r cyfyngiadau ar y gwahanol grwpiau sy’n ymwneud â’r gyrchfan, profiad ymwelwyr, a’r economi leol. Mae'r model hwn wedi bod yn llwyfan delfrydol ar gyfer datblygu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan hwn, ac mae’r un mor ddelfrydol ar gyfer cyflawni'r Cynllun. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau yr hoffech chi eu gwneud ar y cynllun neu os ydych chi eisiau anfon eich sylwadau at Bartneriaeth Cyrchfan Conwy, gweler y manylion cyswllt ar dudalen 22.

## 9 Cyllid

Er gwaethaf y rhagolygon ariannol difrifol sydd o'n blaenau ni, disgwylir y bydd y Cynllun hwn hefyd yn dylanwadu ar bolisïau eraill yn ymwneud â Chyngor Conwy a phartneriaid ym maes cynllunio, rheoli cyrchfan, rheoli amgylcheddol, hyfforddiant a sgiliau, adfywio, cefnogi busnes, digwyddiadau ac ati, gan ychwanegu gwerth drwy newid pwyslais gweithgareddau neu bolisïau. Rydym ni'n hyderus y bydd y Cynllun hwn yn ein galluogi ni i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn ogystal ag unrhyw ffynonellau cyllid a fydd ar gael yn y dyfodol.

Yn ystod ein trafodaethau a'n hymgynghoriadau ni'n ymwneud â datblygu'r Cynllun hwn, codwyd yr Ardoll Twristiaeth fel ffordd bosibl o gefnogi'r sector a'n cymunedau ni yn y dyfodol. Tra bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn, ac nid oes unrhyw sicrwydd y caiff ei fabwysiadu; gallai Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy fod yn ffordd gynhwysol a theg o nodi prosiectau â blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiadau o'r Ardoll Ymwelwyr yn y dyfodol, pe bai'n cael ei sefydlu.

## 10 Cwmpasu dull strategol

Caiff rhan helaeth o economi twristiaeth Conwy ei hategu gan fusnesau bach a micro, sy’n cael eu rhedeg gan entrepreneuriaid ac unigolion gweithgar ac ymroddedig, sy’n darparu lefelau uchel o wasanaeth o ansawdd i ymwelwyr. Mae'n bwysig bod y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn eu cefnogi nhw yn eu busnesau a'u gwaith. Yn yr un modd, mae angen i'r Cynllun ystyried yr amcanion strategol ehangach y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (yn ogystal â phartneriaid eraill ar draws busnesau a’r llywodraeth) yn ceisio eu cyflawni ar gyfer y gymuned gyfan, drwy economi gref, fywiog a llwyddiannus.

O ganlyniad i hyn, mae’r Cynllun hwn yn ystyried, ac yn ceisio cefnogi, y strategaethau a’r amcanion sydd wedi’u nodi yn y meysydd a ganlyn:

• Strategaeth Twf Economaidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae gan dwristiaeth ran allweddol yn y strategaeth hon, ac mae’r pwyslais ar ddatblygu twristiaeth trwy gydol y flwyddyn (trwy atgyfnerthu twristiaeth yn ystod y gaeaf), datblygu economi gyda'r nos cryf, a datblygu digwyddiadau a strategaethau celfyddydol.

• Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae twristiaeth yn elfen hanfodol yn y sir, a bydd angen i Gynllun Datblygu Lleol newydd y Cyngor (sy’n cael ei baratoi ar hyn o bryd) a’i bolisi cynllunio ehangach gwmpasu, gwarchod a chefnogi llety ac isadeiledd twristiaeth presennol yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu twristiaeth yn y dyfodol.

• Strategaeth Ddiwylliannol Creu Conwy

Strategaeth i roi’r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth wrth wraidd bywyd cymunedol yn Sir Conwy. Mae twristiaeth wedi’i ymgorffori drwy’r strategaeth hon gan ddefnyddio gweithgareddau a lleoedd diwylliannol i sbarduno twf economaidd, lles a chysylltiadau.

• Economi Ymweld Cynaliadwy ar gyfer Gwynedd ac Eryri 2035

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn nodi'r egwyddorion craidd ar gyfer yr economi ymweld yn yr ardal, a fydd yn ei dro yn arwain at gyfres o gamau gweithredu y bydd y Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy yn cytuno arnynt.

• Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Mae twristiaeth yn cael ei nodi’n sector allweddol, ac mae pwyslais yn cael ei roi ar ddatblygu twristiaeth trwy gydol y flwyddyn, a datblygu a gwella sgiliau ar gyfer y diwydiant lletygarwch a thwristiaeth trwy greu canolbwynt academi dwristiaeth.

• Strategaeth Dwristiaeth Llywodraeth Cymru: Partneriaeth ar gyfer Twf 2013 - 2020

Rhoddir sylw manwl i bum prif faes y strategaeth hon - hyrwyddo brand, datblygu cynnyrch, datblygu pobl, perfformiad proffidiol, ac adeiladu lleoedd.

• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 Llywodraeth Cymru

> Agwedd allweddol o gynnig twristiaeth Conwy yw tynnu sylw at iaith a diwylliant ffyniannus Cymru, sy'n cysylltu â dyheadau'r Ddeddf hon. Bydd economi lwyddiannus a llewyrchus ym maes twristiaeth, sy'n cyfrannu at yr economi ehangach, yn cael effaith gadarnhaol ar wneud Cymru'n fwy llewyrchus, yn iachach, yn fwy cyfartal, yn fwy gwydn, yn fwy ymatebol yn fyd-eang ac yn fwy cydlynol.

Nid yw'n syndod bod llawer o ddyheadau a strategaethau yn y saith maes hyn yn gorgyffwrdd, ac yn cyd-fynd yn llwyr â'r amcanion a'r blaenoriaethau y mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan hwn wedi'u nodi.

## 11 Beth ydym ni'n dymuno ei gyflawni?

1. Cynyddu gwerth twristiaeth dros y flwyddyn gyfan:

    - Cynyddu gwariant ymwelwyr a lleihau costau ymwelwyr.
    - Cynyddu nifer yr ymwelwyr sy'n aros dros nos.
        - Marchnata wedi'i dargedu at grwpiau sy'n dymuno aros dros nos.
        - Prisiau deinamig gan y sector sy'n annog ac yn gwobrwyo ymwelwyr sy'n aros dros nos.
    - Economi gyda'r nos, (ymestyn yr ymweliad) gwella'r cynnig/ansawdd.
    - Digwyddiadau: rhagor o ddigwyddiadau a digwyddiadau mwy sy'n cael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn ac sydd â phwyslais ar y misoedd tawelach.
    - Datblygu cynnig cryfach o ran bwyd.
    - Targedu misoedd tawelach i ymwelwyr. Datblygu themâu i ddenu ymwelwyr.
    - Creu cyrchfan y mae pobl yn ymweld â hi drwy'r flwyddyn.
    - Sicrhau bod pob sector yn cydweithio (llety, digwyddiadau, atyniadau, bwyd a diod), yn enwedig yn ystod y misoedd tawelach.

2. Sicrhau ansawdd twristiaeth a phrofiad yr ymwelydd/preswylydd:

    - Creu cysylltiadau â'r gymuned leol.
    - Arolwg cymunedol lleol blynyddol ynghylch bodlonrwydd â thwristiaeth yn y gyrchfan.
    - Data: nid oes digon o ddata gennym ni i gefnogi ansawdd y cynnig twristiaeth ledled y sir a deall y problemau.

3. Sicrhau cynaliadwyedd twristiaeth a phrofiad ymwelwyr/preswylwyr:

    - Creu diffiniad Conwy o ystyr cynaliadwyedd.
    - Busnesau/adeiladau cynaliadwy; adeiladau effeithlon o ran ynni/cydymffurfiaeth â Thystysgrif Perfformiad Ynni, gweithio ar leihau CO2.
    - Sicrhau bod cludiant yn addas ar gyfer y dyfodol (h.y. cynllun ar gyfer y sir gyfan ar gyfer pwyntiau gwefru trydan, gweithio gyda busnesau i ddeall eu cynlluniau). Casglu rhagor o ddata i ddeall faint o ymwelwyr sy'n defnyddio ceir/trydan/cludiant cyhoeddus.
    - Gwell addysg ar gyfer ein hymwelwyr ar bwysigrwydd diogelu'r amgylchedd, sbwriel, ceir, cludiant cyhoeddus, ble a phryd i ymweld a'u cyfrifoldebau nhw.
    - Data: nid oes gennym ni ddigon o ddata i ddangos pa mor gynaliadwy yw'r sir/deall y problemau.
    - Rheoli nifer yr ymwelwyr yn ystod adegau prysur (cyfrifoldeb i "sicrhau cydbwysedd rhwng gweithgareddau i dwristiaid a bywyd bob dydd yn y sir" ac annog dosbarthiad daearyddol ehangach o ran twristiaeth yn y sir).
        - Gwasgaru'r twristiaid trwy eu hannog nhw i ddarganfod ac archwilio lleoedd y mae llai o bobl yn ymweld â nhw. Mae'n bosibl iawn y bydd ardaloedd lle hoffai pobl weld mwy o dwristiaid, hybu atyniadau llai poblogaidd a datblygu atyniadau newydd.
        - Rhannu data ynghylch nifer y twristiaid wythnosol/dyddiol yn yr ardal, hyrwyddo a thynnu sylw at ddigwyddiadau sy'n mynd i ddenu nifer fawr o bobl: mae hyn yn hysbysu ymwelwyr a phobl leol.

  - Creu teithiau tywys ac amserlenni teithio newydd i ardaloedd y mae llai o bobl yn ymweld â nhw.
  - Dull prisiau deinamig - codi prisiau uwch pan fo’r galw ar ei uchaf a chodi prisiau is pan fo'r galw’n llai a phan fo llai o bobl yn ymweld.
  - Gellir peidio â marchnata i atal pobl rhag ymweld er mwyn lleihau effeithiau negyddol – yn yr un modd â marchnata, mae amrywiaeth o ddulliau ar gael, o godi prisiau i leihau gweithgarwch hyrwyddo.

4. Ymgysylltu ymwelwyr â’n treftadaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac adeiledig;

   - Data. Faint o ymwelwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau/atyniadau diwylliannol/treftadaeth?
   - Faint o fusnesau twristiaeth sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant traddodiadol/lleol a threftadaeth/yr iaith Gymraeg?
   - Angen sicrhau bod y cynnig ar gyfer y sir gyfan (cynhwysol).

5. Ymgysylltu â'r gymuned leol:

   - Holi pobl leol i gael eu barn nhw ynghylch twristiaeth yn y Gyrchfan (ar-lein o ganlyniad i gostau).
   - Data o'r Rhaglen Llysgennad - faint o bobl leol sy'n ymgysylltu?
   - Cyrchfan Conwy - trefnwch rai digwyddiadau sydd ar gael i’r gymuned leol gyfarfod â busnesau.

6. Rhoi cefnogaeth i fynd i’r afael â materion yn ymwneud â sgiliau a’r gweithlu;

   - Sicrhau bod yr Academi Dwristiaeth arfaethedig yn rhoi hyfforddiant a chymorth wedi’u teilwra sy’n mynd i’r afael â gofynion lleol a rhanbarthol, a bod Cyrchfan Conwy yn gysylltiedig â’r prosiect.
   - Casglu data ar faterion yn ymwneud â sgiliau.
   - Annog talu’r Cyflog Byw a sicrhau buddion go iawn yn y gweithle.
   - CBSC/Cyrchfan Conwy/Ymgysylltu â chyflogwyr.
   - Archwilio modelau rhannu gweithwyr.
   - Defnyddio cynllun rhad ac am ddim Llysgennad Conwy, yn cynnwys y modiwlau hyfforddi newydd, ac integreiddio hyn i’r broses sefydlu gweithwyr newydd. Bydd hyn yn helpu gweithwyr o’r ardal neu sy’n newydd i'r ardal.

7. Sicrhau bod y sector yn cydweithio i wella’r hyn sydd gennym ni a denu buddsoddiadau newydd:

   - Cyrchfan Conwy
   - Grwpiau Busnes
   - Parc Cenedlaethol Eryri
   - Diwydiant gwledig
   - Diwydiant gwyrdd

8. Dylanwadu ar Gynllun Datblygu Lleol Conwy i fodloni anghenion y diwydiant a bod yn ddigon hyblyg i weithio gyda thueddiadau twristiaeth presennol a newydd:

   - Sicrhau yr ymgynghorir â thwristiaeth trwy Gyrchfan Conwy wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Conwy.

9. Cynyddu’r defnydd o deithio gwyrddach ac isadeiledd cludiant:

    - Casglu data o drenau, gorsafoedd a bysiau ar ddefnydd a phwy sy’n eu defnyddio nhw.
    - Monitro pwyntiau gwefru trydan yn y sir a’u hyrwyddo.
    - Cymorth busnes i annog mentrau gwyrdd.

10. Sicrhau bod data yn cefnogi’r broses o wneud penderfyniadau ynghylch twristiaeth:

    - Adnewyddu a chynnal Arolwg Ymwelwyr Conwy.
    - Trafod sut y gellir coladu a chasglu data i wella dealltwriaeth y sector.
    - Gwella dull casglu data STEAM.

11. Sicrhau bod y cyrchfan yn bodloni disgwyliadau preswylwyr ac ymwelwyr o ran glanweithdra, cyfleusterau ac amwynderau.

    - Arddangos pensaernïaeth unigryw’r ardal a disodli isadeiledd sy’n dadfeilio â strwythurau newydd o safon.
    - Adnewyddu ac ailfywiogi mannau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml.
    - Creu gwaelodlin o ansawdd gwell yn gyffredinol i ddenu mwy o ymwelwyr, mwy o alw a mwy o werth i breswylwyr.

Er mwyn cyflawni'r uchod, mae angen adnoddau ar dîm effeithiol yn CBSC i oruchwylio'r strategaeth ac i sicrhau ymgynghoriad rheolaidd gan CBSC a Chyrchfan Conwy.

Bydd rhaid i bob cam gweithredu ategu Cynlluniau Lleoedd trefi perthnasol a’r strategaethau a restrir yn Adran 10.

## 12 Cysylltu

Mae Grŵp Llywio Cyrchfan Conwy yn croesawu rhagor o ymholiadau am unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon, neu am dwristiaeth yn gyffredinol. Gellir cael gwybodaeth am dwristiaeth yn gyffredinol ar wefan Cyrchfan Conwy yn https://www.dewchigonwy.org.uk/

Gellir gwneud rhagor o ymholiadau am y ddogfen hon trwy gysylltu â:

Jasmin Ryan
Rheolwr Twristiaeth ac Adfywio
E-bost: jasmin.ryan@conwy.gov.uk